# Lleihau a delio ag ymddygiad ymosodol a chamdriniol

## Trosolwg

Mae’r NOS hwn yn cyflwyno’r sgiliau, y wybodaeth a’r ddealltwriaeth ar eich cyfer chi i atal neu ddelio ag ymddygiad ymosodol neu gamdriniol

Mae dau faes:

1. Helpu i atal ymddygiad ymosodol a chamdriniol

Delio ag ymddygiad ymosodol a chamdriniol

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

**Helpu i atal ymddygiad ymosodol a chamdriniol**

P1 **cyfathrebu** â phobl mewn ffordd sy'n dangos parch tuag atyn nhw, eu heiddo a'u hawliau

P2 cyfathrebu â phobl mewn ffordd sy'n briodol iddyn nhw

P3 esbonio'n glir beth yw eich rôl a beth mae'n rhaid i chi ei wneud

P4 cynllunio sut byddwch chi'n gadael y sefyllfa os oes risg ymddygiad camdriniol ac ymosodol

P5 lleihau gweithredoedd neu eiriau a allai sbarduno ymddygiad camdriniol ac ymosodol

**Delio ag ymddygiad ymosodol a chamdriniol**

P6 adnabod pan fydd sefyllfa yn arwain at ymddygiad ymosodol neu gamdriniol

P7 cymryd camau adeiladol i dawelu ymddygiad ymosodol a chamdriniol sy'n gyson â pholisïau a gweithdrefnau eich sefydliad, a'ch cyfrifoldebau cyfreithiol

P8 amlygu i'r bobl dan sylw ganlyniadau tebygol eu hymddygiad ymosodol a chamdriniol

P9 ymddwyn mewn ffordd sy'n debygol o hyrwyddo pwyll a sicrwydd

P10 defnyddio strategaeth ymadael, os bydd angen, mewn ffordd sy'n lleihau risg anaf i chi'ch hun ac i eraill

P11 rhoi gwybod am yr hyn sydd wedi digwydd yn brydlon ac yn gywir a chwblhau'r holl ddogfennau angenrheidiol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

**Gofynion cyfreithiol a sefydliadol**

K1 polisïau, gweithdrefnau a chyfrifoldebau eich sefydliad o ran delio ag ymddygiad ymosodol a chamdriniol

K2 y mathau o ymddygiad adeiladol y gallwch ymgymryd â nhw i dawelu sefyllfaoedd, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau eich sefydliad ar gyfer delio ag ymddygiad ymosodol neu gamdriniol

K3 eich cyfrifoldebau cyfreithiol o ran delio ag ymddygiad ymosodol a chamdriniol

**Helpu i atal ymddygiad ymosodol a chamdriniol**

K4 pwysigrwydd dangos parch tuag at bobl, eu heiddo a'u hawliau, a sut i wneud hynny

K5 ymddygiad neu iaith a allai ddangos i bobl eraill eich bod yn gwahaniaethu neu'n bod yn ormesol

K6 iaith y corff a chydnabod gofod personol pobl eraill

K7 egwyddorion asesu risg o ran bod yn ymwybodol o bethau a all sbarduno ymddygiad camdriniol ac ymosodol

K8 pwysigrwydd cynllunio sut byddwch yn gadael sefyllfa os bydd risg gorfforol, a sut i wneud hynny

K9 y prif arwyddion y gallai sefyllfa arwain at ymddygiad ymosodol a chamdriniol a sut i adnabod y rhain

**Delio ag ymddygiad ymosodol a chamdriniol**

K10 y goblygiadau posibl os bydd rhywun yn mynd yn ymosodol neu'n gamdriniol

K11 deall pwysigrwydd strategaethau gadael diogel

K12 yr adroddiadau y mae'n rhaid eu gwneud a'r cofnodion y mae'n rhaid eu cadw pan fydd rhywun yn mynd yn ymosodol neu'n gamdriniol

## Cwmpas/Ystod

**1. cyfathrebu**

1.1. iaith a lleferydd

1.2. gweithredoedd

1.3. ystumiau ac iaith y corff

gofod a safle

Lleihau a delio ag ymddygiad ymosodol a chamdriniol

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Security |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 30 Ebr 2011 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 30 Ebr 2013 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Sgiliau Diogelwch |
| **RCU gwreiddiol** | SFSCWD14 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Galwedigaethau Elfennol, Galwedigaethau Diogelwch Elfennol |
| **Cyfres/Set** | Cadwraeth Amgylcheddol, Wardeiniaid Cymunedol, Rheoli Digwyddiadau yn y Sector Tir |
| **Geiriau Allweddol** | warden, cymunedol, ymddygiad, ymosodol, camdriniol, gwrthdaro, atal, diogelwch |